## Ymddiriedolaeth yr Amgueddfa

Prif amcanion yr Ymddiriedolaeth yw casglu, cadw ac arddangos creiriau a deunydd rheilffyrdd bach cul i addysgu'r cyhoedd mewn ffordd ddifyr, yn unol â'r Weithred o Ymddiriedolaeth dyddiedig 11 Gorffennaf 1994.




Nod yr Ymddiriedolaeth yw cofnodi a dehongli hanes rheilffyrdd bach cul Ynysoedd Prydain a thu hwnt. Er bod nifer o reilffyrdd sy'n cludo teithwyr wedi'u cadw ac yn parhau i weithredu, i fodloni'r farchnad dwristaidd yn bennaf bellach, peidiodd llawer o leiniau eraill oedd yn cludo teithwyr, yn ogystal â llawer o rai diwydiannol a milwrol, â bodoli yng nghanol yr ugeinfed ganrif.



Diolch i frwdfrydedd arloesol caredigion a chasglwyr y cyfnod hwnnw, mae ein casgliad yn ein galluogi i adrodd stori'r rheilffyrdd cul hynny, er na lwyddodd y mwyafrif i gyflawni'r un poblogrwydd eang â'u cymdogion lletach, mwy o faint.



## Gwybodaeth i Ymwelwyr

**Oriau Agor a Mynediad:**
Ar agor am 10am ar y dyddiau mae Rheilffordd Tal-y-llyn yn rhedeg gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r amseroedd cau i'w gweld ar y wefan.

Mynediad AM DDIM. Mae blychau rhodd ar gael a chaiff yr holl arian a gesglir ei roi at ddatblygu a chadwraeth ein casgliad.

**Parcio:**
Gellir parcio ym maes parcio Rheilffordd Tal-y-llyn, sydd ychydig funudau o gerdded o orsaf Glanfa Tywyn.

**Lluniaeth a Siop:**
Mae Caffi Trwyddedig King's a Siop y Rheilffordd i'w gweld nesaf at yr amgueddfa ar orsaf Glanfa Tywyn. Mae manylion llawn am y rhain, ynghyd â'u horiau agor, i'w gweld ar wefan Rheilffordd Tal-y-llyn.

**Toiledau:**
Mae toiledau, gan gynnwys toiledau cwbl hygyrch, ar gael ar orsaf Glanfa Tywyn.

**Lifft:**
Mae gan yr amgueddfa ddwy lawr. Mae lifft ar gael i'r rheini sy'n cael anhawster gyda'r grisiau.

**Ceir rhagor o wybodaeth am ein cyfleusterau a'r Datganiad Mynediad Anabledd llawn yn www.talyllyn.co.uk.**

**Cysylltu â ni:**

*Ebost:* curator@ngrm.org.uk (Andrew Nock)
*Gwe:* www.narrowgaugerailwaymuseum.org.uk
*Ffôn:* 01654 710472 (Rheilffordd Tal-y-llyn)
*Post:* Amgueddfa'r Rheilffyrdd Bach Cul, Gorsaf Glanfa Tywyn, Gwynedd LL36 9EY

**Dilynwch ni ar Facebook** @ 'News from the Narrow Gauge Railway Museum' i gael y newyddion diweddaraf.




# Ymddiriedolaeth Amgueddfa'r Rheilffyrdd Bach Cul

NGRM

**Amgueddfa Achredegig Rhif 1433**
**Elusen Gofrestredig Rhif 1040128**

AMGUEDDFA ACHREDEDIG / ACCREDITED MUSEUM
heritage treftadaeth — LOTTERY FUNDED / ARIENNIR GAN Y LOTERI
Cymru Wales — Atyniad Sicrwydd Ansawdd Ymwelwyr / Quality Assured Visitor Attraction







## Yr Amgueddfa

## Mwynhewch eich ymweliad, soniwch wrth eich ffrindiau a dewch yn ôl yn fuan

Ar Orsaf Glanfa Tywyn sy'n rhan o Reilffordd Tal-y-llyn, yn ardal ddeheuol Eryri, mae Amgueddfa'r Rheilffyrdd Bach Cul yn gartref i locomotifau, wagenni, arwyddion a signalau o reilffyrdd bach ym mhob rhan o Ynysoedd Prydain.



Y rheilffyrdd bach cul oedd gweithwyr diflino a di-sôn-amdanynt Diwydiant Prydain rhwng diwedd y 19eg ganrif a chanol yr 20fed ganrif; yn symud cerrig, llechi a glo mewn chwareli a phyllau, a rhannau a nwyddau y tu fewn i lawer o ffatrïoedd ym Mhrydain. Lle bynnag roedd rheilffordd lled safonol (4 troedfedd 8 ½ modfedd) yn rhy fawr neu'n rhy ddrud i'w gosod, roedd rheilffordd fach gul yn cyflawni'r dasg yn brydlon ac o fewn y gyllideb. Hyd yn oed heddiw yn yr 21ain ganrif mae prosiectau peirianneg sifil ar raddfa fawr fel Crossrail yn defnyddio rheilffyrdd cul i symud dynion a chyfarpar pan nad oes unrhyw ffordd ymarferol arall ar gael.



Mae ein hamgueddfa ar agor pryd bynnag y bydd trenau'n rhedeg ar Reilffordd Tal-y-llyn, gyda gwirfoddolwyr wrth law i ateb eich cwestiynau a'ch arwain drwy hanes cyfareddol rheilffyrdd bach Prydain. O gludo boncyffion ym Mynyddoedd Cymru, i chwarelu llechi i roi to ar yr Ymerodraeth, symud bwledi a sielau o gwmpas Arsenal Woolwich neu drawsgludo galwyni o gwrw ym mragdy Guinness yn Nulyn, gallwch ddysgu amdano yma.



Os yw eich gyrwyr trên ifanc yn awyddus i chwythu stêm, ewch â nhw i weld llawr caban William Finlay, ein locomotif chwarel calchfaen a adeiladwyd gan Fletcher Jennings; yno cânt gyfle i ddirwyn y brêc, ei roi mewn gêr ac agor y throtl i gael blas ar yrru locomotif stêm. I'n hymwelwyr iau ceir posau a gemau chwilio am wrthrychau ar y llawr cyntaf (mae lifft ar gael), neu efallai y byddai'n well ganddyn nhw eistedd yn ôl a gwrando ar stori Tomos y Tanc yn cael ei hadrodd gan Jonny Morris.

Tra'ch bod chi ar y llawr cyntaf cofiwch edrych ar yr ailgread o stydi'r Parchedig W.V. Awdry, sy'n cynnwys Gorsaf Ffarquhar, rhan o'i reilffordd arddangos, a map tirwedd o Sodor uwchlaw'r lle tân; y cyfan yn dwyn i gof yr ystafell lle'r ysgrifennodd ei straeon cofiadwy.



Mae'r balconi ar y llawr cyntaf yn cynnig golwg unigryw dros iard y Lanfa a'r llinell redeg islaw; pan fyddwch chi yno edrychwch am ein casgliad o wagenni Tal-y-llyn, Corris a Ffestiniog ger Ty y Bont Bwyso sydd wedi'i ailadeiladu.

Rydym ni'n croesawu cwn i'r amgueddfa; dewch a'ch anifail anwes i gael tynnu ei lun gyda Rough Pup, locomotif o Chwarel Dinorwig a dreuliodd ei oes yn gweithio ar y lefelau ym mhob tywydd.



Elusen addysgol yw Ymddiriedolaeth Amgueddfa'r Rheilffyrdd Bach Cul a gaiff ei rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr ac rydym ni'n croesawu rhoddion i'n helpu i'w chynnal ac i ehangu ein casgliad. Os ydych chi'n drethdalwr yn y DU cwblhewch ffurflen Rhodd Cymorth i ychwanegu 25c i bob £1 yn eich rhodd. Os oes gennych chi eitem rheilffordd gul yr hoffech ei benthyca neu ei rhoi i'r amgueddfa, soniwch wrth un o'r ceidwad.